WRTH i Hiraethog ymryddhau'n raddol o'i gyfrifoldebau golygyddol, cwympodd y baich yn gynyddol ar ysgwyddau Thomas Manuel o Lanofer. Nis gwyddom yn union pa bryd yr aeth i Lerpwl i weithio mewn swyddfa cyfreithiwr yno, na pha bryd ychwaith y dechreuodd gyfrannu i'r *Amserau*.

Mae'n bosibl ei fod â rhyw gysylltiad â'r newyddiadur mor gynnar â 1847 gan ei fod wedi cyhoeddi llith yn ei ganmol yn y *Christian Witness* ddechrau Hydref y flwyddyn honno.

O hyn ymlaen fe'i cawn yn chwarae rhan fwy amlwg yn hanes y newyddiadur. Ymosododd ar Talhaiarn yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* ddechrau Awst 1849 gan fod hwnnw wedi mentro cyhoeddi cerdd a oedd yn dychanu Hiraethog a'r *Amserau*.

Ym mis Hydref 1850 ef a aeth ar ran y papur i holi'r Hwngariad Martin Diósy ai gwir yr hanes fod Kossuth a'r Hwngariaid eraill a garcharwyd yn Nhwrci ers methiant eu gwrthryfel yn 1849 ar fin cael eu rhyddhau gan y Swltan. (Bu'r *Amserau* yn flaenllaw iawn yn pledio achos y gwrthryfel ac, yn ddiweddarach, yn dadlau y dylid cynnal yn anrhydeddus y ffoaduriaid a ddaeth i Brydain.)

* * *

YMDDENGYS mai Manuel oedd yn gyfrifol am yr ymgais a nodwyd yn yr erthygl flaenorol i droi'r *Amserau* yn bapur mwy proffesiynol ei ddiwyg o 1850 ymlaen.

Yn ogystal â chyfieithu a chrynhoi hanesion o'r papurau Seisnig cyfrannai Manuel gryn dipyn o ddefnydd gwreiddiol megis y gyfres o 'Ymddiddanion y Felin', trafodaethau ar bynciau'r dydd a fu bron mor boblogaidd â llythyrau 'Rhen Ffarmwr. Cyhoeddodd lawer o'i waith dan ffugenwau megis 'Callestr' ac 'Ysolyr o'r Fferyllfa', gan gyflwyno'i erthyglau miniog ar ffurf llythyrau ffug oddi wrth ddarllenwyr.

Yn ystod ei olygyddiaeth rhoddwyd mwy o sylw i faterion llenyddol: gormod felly yn wir ym marn llawer o ddarllenwyr yn ystod haf a hydref 1851 pan fonopoleiddiwyd colofnau gohebiaeth *Yr Amserau* gan ddadlau brwd ar y cwestiwn llosg (ar ôl Eisteddfod Rhuddlan 1850) o statws y bryddest ddigynghanedd.

Mae'n amlwg i Manuel golli rheolaeth ar y ddadl a thua'r un adeg mae llawer o'r gwelliannau newyddiadurol a fabwysiadwyd yn ystod 1850 yn diflannu o golofnau'r papur.

Yr esboniad am hyn oedd i iechyd Manuel ddirywio'n enbyd yn ystod 1851. Bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r olygyddiaeth ddechrau Tachwedd 1851 a dychwelyd i'w hen gartref yn

# P. H. JONES a hanes YR AMSERAU
# CYSTADLEUAETH 1850-52

Llanofer lle bu farw o'r darfodedigaeth cyn diwedd y flwyddyn. 'Roedd yn 24 oed.

* * *

GADAWODD *Yr Amserau* mewn cyflwr difrifol. 'Roedd y dadleuon barddol a cherddorol wedi diflasu cymaint o'r darllenwyr (dywedodd un fod *Yr Amserau* 'fel Maes Waterloo o ymladdau a dadleyon') nes peri i'r gwerthiant gwympo i 1400 o gopïau'r wythnos cyn diwedd y flwyddyn.

Collwyd rhai o'r darllenwyr hyn i newyddiadur radicalaidd newydd, *Seren Cymru* a gychwynnwyd dan olygyddiaeth Samuel Evans (cyn-olygydd *Seren Gomer*) yng Nghaerfyrddin ganol Awst 1851. Er mai pythefnosolyn ydoedd, bwriadwyd ei droi'n wythnosolyn unwaith y byddai wedi ennill ei blwyf.

Yn ôl Samuel Evans gwrthododd golygydd *Yr Amserau* gyhoeddi hysbyseb am *Seren Cymru* gan holi 'yn garedig iawn a fuasem mor ffol, pe buasem yn ei le ef, a chyhoeddi peth i niweidio ein hunain'. Gellir cydymdeimlo â safbwynt *Yr Amserau* gan i *Seren Cymru* geisio ei ddifrïo gan fynnu nad oedd mewn gwirionedd yn bapur amhleidiol ond yn hytrach yn 'enau i'r Annibyniaid'.

Bu cyhoeddwr *Seren Cymru* hefyd wrthi'n ddyfal yn ceisio dod o hyd i ddosbarthwyr yng ngogledd Cymru: o fewn mis o'i gychwyn 'roedd y newyddiadur yn cael ei ddosbarthu mewn pymtheg o fannau yn y gogledd (gan gynnwys Lerpwl a Chaer).

Er gwaethaf gelyniaeth carfan ddylanwadol ymhlith y Bedyddwyr, llwyddwyd i werthu tua mil o gopïau o bob rhifyn ond nid oedd hyn yn ddigon i wneud y papur yn fenter broffidiol ac fe fu'n rhaid rhoi'r gorau iddo ar ddiwedd 1852 ar ôl iddo wneud colled o ddau gant o bunnau.

* * *

DAETH cystadleuydd arall i'r maes ddechrau Ionawr 1852, pan geisiodd J.T. Jones unwaith eto gyhoeddi newyddiadur Cymraeg radicalaidd yn Ne Cymru. Ailgychwynnodd *Y Gwron Cymreig* (a gyhoeddwyd gyntaf ganddo yn 1838-9) dan olygyddiaeth Caledfryn.

Aeth J.T. Jones ati i hybu ei werthiant yn y Gogledd yn ogystal â'r De trwy hysbysebu a chanfasio'n ddyfal o'i blaid. Bu'r ymgyrch yn llwyddiannus: ceir cyfeiriadau yn ei lawysgrifau at werthu'r *Gwron* mewn lleoedd megis Corwen, Pwllheli a Llannerch-y-medd.

Serch hynny, methiant masnachol oedd *Y Gwron* yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Yn ôl J.T. Jones, cwympodd ei gylchrediad yn gyson bob chwarter o naw cant o gopïau bob pythefnos i chwe chant a hanner. Onibai am anogaeth Caledfryn, meddai J.T. Jones ddechrau 1856, buasai wedi rhoi'r gorau i'r *Gwron* ers talm er mwyn osgoi colled o gan punt a hanner.

Cawn gyfle i drafod yn ddiweddarach paham y methodd *Y Gwron* ennill cylchrediad ehangach ond gellir awgrymu yma fod J.T. Jones wedi ei gychwyn yn rhy hwyr o drwch blewyn.

Erbyn dechrau 1852 'roedd *Yr Amserau* wedi addo na fyddai'n blino amynedd ei ddarllenwyr mwyach trwy ganiatáu i'r dadleuon barddol a cherddorol rygnu ymlaen yn ddi-ben draw. Dychwelodd dros chwe chant o'i ddarllenwyr erbyn diwedd Mawrth 1852 ac er i nifer ohonynt gael eu colli yn ystod gweddill y flwyddyn, 'roedd y gwerthiant wythnosol yn sefyll o gwmpas 1850 o gopïau ar ddiwedd y flwyddyn.

Llwyddodd John Lloyd, John Jones ac Eleazer Roberts (gydag ambell i gyfraniad oddi wrth Hiraethog) i lenwi tudalennau'r newyddiadur yn ystod misoedd cynnar 1852. 'Roedd Roberts wedi ymuno â staff yr *Amserau* ddechrau 1852 ar gais John Lloyd. Ei dasg — ar ôl diwrnod hir o waith mewn swyddfa — oedd dethol, talfyrru a chyfieithu hanesion cyffredinol a seneddol o'r papurau Seisnig am dâl o ddau swllt y golofn.

Diwrnod mawr oedd diwrnod mesur y gwaith. Byddai Lloyd yn gosod darn o linyn gyferbyn â phob colofn a hawliwyd gan Roberts ac ar ôl nodi'r cyfan byddai'r llinyn yn cael ei fesur er mwyn pennu'r tâl. Ond yn fynych byddai'n rhaid bodloni ar addewid o dâl gan fod ei amgylchiadau ariannol yn ei gwneud hi'n amhosibl i Lloyd dalu yn y fan a'r lle.

Er bod y gwaith yn undonog a diflas 'roedd gan Roberts gymhelliad cryf i lafurio tan oriau mân y bore: ei nod oedd ennill digon i brynu cyfarpar gwell ar gyfer ei ddiddordebau seryddol! Ond ymhen blwyddyn cafodd gyfle i ddechrau traethu ei farn ar bynciau'r dydd pan ddechreuwyd cyhoeddi 'Nodiadau Meddyliwr' yn yr *Amserau* ganol Chwefror 1852.

Darllenwyd y colofnau hyn yn eiddgar gan fod 'Meddyliwr' yn barod i fflangellu pawb a phopeth a oedd yn groes i egwyddorion Cobden, Bright, Miall a Henry Richard.

Erbyn diwedd haf 1852 teimlwyd angen golygydd amser llawn. Cyhoeddwyd hysbyseb yn gwahodd ceisiadau am y swydd o 'is-olygydd'(!) ganol mis Hydref, ac ar ôl cryn dipyn o betruso ymgeisiodd Ieuan Gwyllt amdani a bu'n llwyddiannus. Dyma ddechrau cyfnod mwyaf llwyddiannus ond hefyd y mwyaf ystormus yn hanes yr *Amserau*.

*I barhau)*

# MARWOLAETH WIL BOOTS

GYDA GOLWG ar nodyn Steffan ab Owain yn rhifyn diwethaf *Y Casglwr* credaf mai da o beth fuasai i mi ychwanegu ychydig o ffeithiau ynglŷn â marwolaeth William Williams nad oedd ofod ar eu cyfer yn fy erthygl flaenorol.

Gwelais innau'r cyfeiriad mewn hen newyddiadur sydd yn honni i gorff Wil fod allan ar y mynydd am bum wythnos heb ei ddarganfod, ond hollol anghywir yw'r stori hon rwy'n ofni.

Ceir dyddiad y ddamwain, sef y 13 o Fehefin, ar garreg ei fedd, a hefyd yn yr amryw adroddiadau a ymddangosodd mewn cylchgronau llysieuol a newyddiaduron a gyhoeddwyd o fewn pythefnos i'r digwyddiad — Y *Times* yn eu plith.

Wrth archwilio Llyfr Cofrestru Angladdau plwyf Llanberis am 1861, gwelir mai ar y 16 o Fehefin y'i claddwyd. Dengys iddo felly gael ei gladdu dridiau wedi'r ddamwain.

Mae'n eithaf posib i Gwilym E. Powell (Gwilym Eryri) fod ymhlith y rhai a ddaeth o hyd i'r corff. Ugain oed a fuasai ar y pryd a bu'n gweithio ym Mwynfeydd Copr Eryri, yn Dywysydd i'r Wyddfa, ac am gyfnod bu un o'r cytiau a adeiladwyd i gyfarfod ag anghenion ymwelwyr o dan ei ofalaeth.

Yr oedd William Williams yn enedigol o Bron Farig ger Rhuthun, a byddaf yn meddwl yn aml beth yw hanes yr hen le erbyn heddiw. Tybed a all un o ddarllenwyr *Y Casglwr* fy ngoleuo?

Mae'n wir fod yr enwau Cymreig ar gwterydd y clogwyni wedi diflannu, ond maent yn parhau yn lloches i'r planhigion alpaidd prin fu'n denu cenedlaethau o fotanegwyr i'w hedmygu (a'u dwyn) dros y blynyddoedd. Gosodwyd carreg wen ar ben un o'r rhain lawer blwyddyn yn ôl. Dyma 'ddi-lythyren garreg goffa' William Williams, yr enwog 'Botanical Guide'.

Dewi Jones
Dyffryn Nantlle